



Datganiad o Ddiben

Fostering Solutions – Cymru

Gorffennaf 2024



Cynnwys

- Cyflwyniad
 - Statws y Cwmni
 - Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd
 - Nodau ac Amcanion
 - Ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
 - Y Strwythur Rheoli a Strwythur y Tîm Rhanbarthol
 - Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Asiantaeth
 - Paru
 - Addewid y Grŵp Maethu Cenedlaethol i Blant
 - Ymgynghori a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc
 - Recriwtio, Asesu a Chymeradwyo Gofalwyr
 - Adolygiadau Blynyddol
 - Panel Maethu
 - Goruchwylio a Chefnogi Gofalwyr Maeth
 - Hyfforddi a Datblygu
 - Cyllid ac Yswiriant
 - Cwynion a Chanmoliaeth
 - Aelodaeth Broffesiynol
 - Manylion Cyswllt
 - Newidiadau i Ymarfer mewn Ymateb i Bandemig y Coronafeirws
- 

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn ar gyfer:-

FOSTERING SOLUTIONS CYMRU

Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu a'i chynhyrchu i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau canlynol:

- Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010
- Amddiffyn Plant Cefnogi Gofalwyr Maeth – Protocol ar gyfer Ymddrin â Honiadau yn erbyn Gofalwyr Maeth (Canllawiau, 2011)
- Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer Gofalwyr Maeth (Canllawiau, 2011)
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (yn weithredol Ebrill 2016)
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Canllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Maethu Ebrill 2019
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Gellir darparu copi caled ar gais. Caiff y Datganiad o Ddiben ei adolygu a'i gytuno'n flynyddol gan y Rheolwr Maethu a'r Uwch Dîm Rheoli. Gellir darparu copi o'r Datganiad o Ddiben yn Gymraeg ar gais.

Unigolyn Cyfrifol - Lynn Webb

Rheolwr Maethu - Julie Grant

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi'i gynhyrchu i ddarparu gwybodaeth i bob parti â diddordeb, gan gynnwys:

- Gweinidogion Cymru yn Arolygiaeth Gofal Cymru
- Unrhyw blentyn sy'n cael ei lleoli gan Fostering Solutions Gogledd Cymru, os yw'n briodol.
- Rhieni plant sy'n cael eu lleoli.
- Gofalwyr maeth a darpar ofalwyr maeth.
- Pobl sy'n gweithio i Fostering Solutions Gogledd Cymru (cyflogedig neu hunangyflogedig).
- Yr awdurdod lleol sy'n lleoli, asiantaethau partner a rhanddeiliaid perthnasol.



Statws y Cwmni

Mae'r Datganiad o Ddiben ar gyfer Fostering Solutions Gogledd Cymru wedi'i gynhyrchu yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac mae'n dilyn y canllawiau a'r templed a ddarparwyd gan AGC.

Darparwr y gwasanaeth yw Fostering Solutions Limited a chyfeiriad cofrestredig y gwasanaeth yw Atria, Spa Road, Bolton, BL1 4AG.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw Lynn Webb a'r Rheolwr Maethu yw Julie Grant.

Cyfeiriad y gwasanaeth yw Clwyd House, 57 Regent Street, Wrecsam LL11 1PF a rhif y brif linell ffôn yw 01978 311 590. Mae'r swyddfa ar agor rhwng 9am a 5pm ar ddiwrnodau gwaith.

Sefydlwyd Fostering Solutions yng Ngogledd Cymru yn 2003, ac agorodd swyddfa Wrecsam yn 2006 ar yr un safle ag yr ydym yn gweithredu ohono heddiw. Mae'r swyddfa wedi'i lleoli ar y prif lwybr i mewn i ganol y dref ger gorsaf drenau Wrecsam Cyffredinol sy'n golygu bod modd cyrraedd y swyddfa yn hawdd ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd. Mae'r swyddfa wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf ac nid oes mynediad i bobl anabl ond gallwn ddod o hyd i leoliadau amgen ar gyfer y rhai y mae angen mynediad o'r fath arnynt neu sy'n cael anhawster defnyddio'r grisiau. Rydym wedi defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod ar y llawr gwaelod ar gyfer ambell Gyfarfod Panel yn ôl y gofyn a gallwn hefyd ddefnyddio gwestai a neuaddau cymunedol lleol ar gyfer hyfforddiant a digwyddiadau yn ôl yr angen. Mae'r swyddfa wedi'i phrydlesu ac nid yw'n eiddo i'r cwmni.

Amcanion yr Uwch Dîm Rheoli

Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn gyfrifol am gynllunio strategol ar gyfer y cwmni. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes sy'n cyd-fynd ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, ymrwymadau ariannol, strwythur y sefydliad, polisiau a gweithdrefnau (sy'n ymgorffori unrhyw ddeddfwriaeth newydd), canllawiau a rheoliadau. Mae ein rheolwyr ariannol yn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cael y gwerth gorau posibl.

Mae'r UDRh hefyd yn gyfrifol am bennu targedau perfformiad a gwaith monitor dilynol, yn ogystal â sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n gyfreithiol.

Mae'r Rheolwr Maethu yn cyfarfod â'r Unigolyn Cyfrifol bob mis i drafod perfformiad ac ansawdd yr asiantaeth ac i adolygu'r amcanion busnes yn unol â chynlluniau busnes a datblygu blynyddol yr asiantaeth.

Ymhlith gwasanaethau cymorth canolog y Grŵp Maethu Cenedlaethol mae'r canlynol: Adnoddau Dynol, Cyllid, Hyfforddiant, Sicrhau Ansawdd, Cydymffurfiaeth, y Ganolfan Ymholiadau Maethu a'r Gwasanaeth Asesu Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cyfrannu at weithrediad effeithiol yr asiantaeth o ddydd i ddydd.

Mae'r Asiantaeth yn gallu darparu gwasanaethau maethu ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ogystal ag awdurdodau yng Nghanolbarth a De Cymru ac awdurdodau yn Lloegr.



Nodau ac Amcanion

“Rhoi plant wrth wraidd popeth a wnawn”

Nodau ac Amcanion

Rydym yn ymdrechu i ddarparu gofal o ansawdd uchel a'r canlyniadau gorau posibl i'r plant a'r bobl ifanc a leolir gyda ni.

Mae'r asiantaeth yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth sy'n rhagori ar y safonau gofal sy'n cydfynd â gofynion statudol a rheoleiddiol. Caiff yr asiantaeth ei harolygu gan AGC ac mae copïau o adroddiadau arolygu ar gael drwy wefan Fostering Solutions. Mae nifer o'r awdurdodau lleol rydym yn gweithio gyda nhw yn cynnal gwiriadau hefyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gofynion a'n rhwymedigaethau cytundebol.

Rydym hefyd yn cael ymweliadau monitro gan y Consortiwm Comisiynu sy'n cynrychioli pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Prif nodau:

- Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc o bob oedran sy'n cael eu maethu, y mae asesiad yr Awdurdod Lleol Cyfrifol wedi nodi y caiff eu hanghenion eu diwallu orau drwy fyw gyda theulu maeth
- Sicrhau mai dim ond gyda rhieni maeth sydd wedi'u recriwtio, eu hasesu, eu cymeradwyo a'u hadolygu yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol y caiff plant sy'n cael eu maethu eu lleoli
- Cefnogi, goruchwyllo a darparu hyfforddiant parhaus i rieni i'w galluogi i ddiwallu anghenion unigol y plant sy'n cael eu lleoli gyda nhw
- Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau drwy werthuso a thrwy gael adborth ar ein gwaith

Amcanion:

- Sicrhau y darperir y canlyniadau a'r gofal gorau posibl i blant sy'n cael eu maethu mewn cartref teuluol sy'n ddiogel, yn ffisegol ac yn emosiynol
- Diwallu anghenion unigol y plentyn sy'n cael ei faethu a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddo, yn unol â'i gynllun gofal
- Sicrhau bod cymorth 24 awr ar gael i rieni maeth ac i blant sy'n cael eu maethu 365 diwrnod y flwyddyn

- Gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb, drwy gydnabod pwysigrwydd tarddiad ethnig, crefydd, a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol plant sy'n cael eu maethu; ac ystyried eu rhywedd, eu rhywioldeb ac unrhyw anabled y gall fod ganddynt yn llawn
- Datblygu ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth y plentyn sy'n cael ei faethu
- Hyrwyddo iechyd a lles y plentyn sy'n cael ei faethu, gan gynnwys eu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Hyrwyddo presenoldeb, cyflawniad a chyrhaeddiad addysgol y plentyn sy'n cael ei faethu, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn cyrraedd ei llawn botensial
- Hyrwyddo a chefnogi perthnasoedd pwysig y plentyn sy'n cael ei faethu, gan gynnwys cyswllt y cytunir arno â'i deulu a'i ffrindiau, yn unol â'i gynllun gofal
- Paratoi plant sy'n cael eu maeth ar gyfer annibyniaeth sy'n addas i'w hoedran
- Ceisio safbwyntiau, dymuniadau, barn a dyheadau plant sy'n cael eu maethu a hyrwyddo cyfranogiad ochr yn ochr â'u teuluoedd a'u rhieni maeth
- Hwyluso cyfleoedd dysgu i rieni maeth sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddiwallu anghenion y plant sy'n cael eu maethu y maent yn gofal amdanynt yn well
- Cynnig lleoliadau maethu sy'n ystyried anghenion y plentyn sy'n cael ei faethu'n ofalus ac sy'n parhau'r anghenion hynny â sgiliau a phrofiad y rhieni maeth
- Cefnogi sefydlogrwydd lleoliadau maethu a lleihau effeithiau niweidiol lleoliadau sy'n dod i ben heb rybudd ar gyfer plant sy'n cael eu maethu a theuluoedd maeth
- Cynnal sgiliau a gwybodaeth staff, rheolwyr ac aelodau'r panel maethu drwy ddarparu rhaglenni hyfforddi a datblygu staff effeithiol
- Monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion yr asiantaeth yn rheolaidd
- Defnyddio profiad, arfer gorau ac ymchwil i lywio ymarfer

Ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn **Fostering Solutions Cymru**, rydym yn cydnabod y gymdeithas a'r cymunedau amrywiol yr ydym oll yn byw ac yn gweithio ynddynt. Rydym yn croesawu ac yn dathlu amrywiaeth, yn parchu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Ein nod yw recriwtio staff a gofalmwr o bob cefndir er mwyn adlewyrchu demograffeg y rhanbarth yr ydym yn gweithredu ynddo, a diwallu anghenion amrywiol y plant sy'n cael eu maethu yr ydym yn gofalu amdanynt.

Rydym yn ymwybodol bod gwahaniaethu, rhagfarn, annhegwch a gorthrwm yn gallu bodoli ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl blant sy'n cael eu maethu, rhieni maeth a'u plant, a chyflogeion yn gallu cyrraedd eu llawn botensial fel unigolion, heb iddynt gael eu rhwystro gan wahaniaethu, annhegwch neu ymddygiad gormesol yn y sefydliad.

Yn **Fostering Solutions Wales**, rydym eisiau i bob plentyn sy'n cael ei faethu, ein rhieni maeth a'n chyflogeion deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Ein nod yw sicrhau bod ein gwerthoedd yn cael eu hymgorffori yn ein harferion gwaith o ddydd i ddydd gyda'n holl rhanddeiliaid a'n grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.

Y Cynnig Rhagweithiol


Mae gan yr asiantaeth nifer o ofalmwr maeth sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Caiff pob plentyn sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf eu paru â gofalmwr maeth sy'n siarad Cymraeg. Mae gennym aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Gallwn ddarparu copi o'r Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Blant yn Gymraeg ar gais.

Rydym wrthi'n recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i ymgymryd â rôl gweithwyr cymdeithasol ac i fod yn aelodau o'r panel. Rydym yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd ar ein gwasanaeth ac rydym yn gofyn i bawb yr ydym yn dod i gysylltiad â nhw a oes angen i ni ddarparu gwasanaethau cyfieithu neu gallant siarad ag un o'n staff sy'n siarad Cymraeg yn y grŵp NFA.

Lle y bo'n bosibl, bydd pob aelod o staff y gwasanaeth yn ateb y ffôn yn Gymraeg a Saesneg, yn ysgrifennu cyfarchion yn y ddwy iaith ac yn gadael negeseuon llais yn Gymraeg a Saesneg. Caiff yr holl gardiau pen-blwydd a Nadolig a roddir i ofalmwr maeth a chardiau diolch eu hysgrifennu yn y ddwy iaith.


Mae gennym nifer o ofalmwr maeth sydd wrthi'n cael eu hyfforddi i ddefnyddio Makaton gyda phlant sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith ac mae systemau cyfathrebu PECS yn cael eu defnyddio i helpu plant sydd ond yn siarad rhywfaint bach, os o gwbl.

Mae gan Fostering Solutions Bolisi Cyfle Cyfartal.




Y Strwythur Rheoli a Strwythur y Tîm Rhanbarthol

Strwythur Rheoli



Y Strwythur Rheoli a Strwythur y Tîm Rhanbarthol

Strwythur y Tîm Rhanbarthol



Y Strwythur Rheoli a Strwythur y Tîm Rhanbarthol

Y Tîm Staff

Gall y Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol a'r Tîm Cymorth a'r Swyddog Recriwtio Gofalwyr weithio o bell er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein gofalwyr maeth a phlant a phobl ifanc. Mae ein Gweithwyr Cymdeithasol yn meddu ar gymwysterau gwaith cymdeithasol cydnabyddedig ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Y Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Mae gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol rôl strategol allweddol ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli pob agwedd ar adnoddau maethu a swyddogaethau cymorth ym mhob cofrestriad o fewn ei ranbarth penodedig (Cymru).

Mae'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn goruchwylio'r Rheolwr Maethu ac yn ei gefnogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a ddangosir gan ganlyniadau arolygiadau allanol, adborth rhanddeiliaid (Awdurdodau Lleol, gofalwyr, plant a phobl ifanc), archwiliadau mewnol a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall ac yn cefnogi'r amcanion gweithredu a'r safonau perfformiad, gan geisio gwella perfformiad yn barhaus ar draws pob maes gwasanaeth a chyflawni canlyniadau uchelgeisiol i blant a phobl ifanc.

Y Rheolwr Maethu

Mae'r Rheolwr Maethu yn gyfrifol am weithrediad cyffredinol yr asiantaeth, gan gynnwys goruchwylio'r Rheolwr Tîm, y Rheolwr Swyddfa a'r Swyddog Recriwtio Gofalwyr.

Mae'r Rheolwr Maethu yn gyfrifol am lunio cynllun busnes yr asiantaeth, cyflawni amcanion busnes a rheoli cyllideb yr asiantaeth. Mae hefyd yn ymwneud â datblygu a gweithredu nodau ac amcanion strategol y sefydliad ac yn cyfarfod ag Uwch Reolwyr a Chyfarwyddwyr bob mis. Mae'r Rheolwr Maethu yn sicrhau bod yr holl ymarfer yn gyson â pholisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth, ac yn cyfrannu at y gwaith o'i adolygu a'i ddiweddarau.

Mae'n goruchwylio'r broses o gwblhau archwiliadau a monitro'r gwasanaeth yn barhaus er mwyn sicrhau gwasanaeth maethu o'r safon uchaf. Mae'r Rheolwr Maethu yn monitor cwynion a honiadau difrifol, yn rhoi cyngor arnynt ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn a bod mesurau diogelu ar waith.

Y Rheolwr Tîm

Mae'r Rheolwr Tîm yn gyfrifol am rheoli a goruchwylio Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol a Gweithwyr Cymorth yr asiantaeth. Mae'r Rheolwr Tîm yn goruchwylio'r cymorth a gynigir i ofalwyr maeth a phlant sy'n cael eu maethu o ddydd i ddydd ac yn gwneud penderfyniadau ar achosion fel rhan o hyn. Mae'r Rheolwr Tîm yn goruchwylio'r gwaith o baru plant sy'n cael eu maethu a atgyfeirir at yr asiantaeth, ac yn helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob plentyn a leolir. Ar y cyd â'r Rheolwr Maethu, mae'r Rheolwr Tîm yn cynnal gwaith archwilio, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Canllawiau a'r Rheoliadau Maethu, ac yn ymdrechu i gyflawni canlyniadau da ar gyfer plant. Mae'r Rheolwr Tîm yn goruchwylio'r gwaith o adolygu gofalwyr maeth presennol yr asiantaeth ac unrhyw ailasesiadau, ac yn asesu unrhyw ofalwyr maeth sy'n symud o asiantaethau eraill yn y grŵp.

Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol

Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gyfrifol am asesu, cefnogi a goruchwylio gofalwyr maeth a chynnal adolygiad blynyddol ohonynt. Maent hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal a byddant yn mynychu Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a chyfarfodydd Cynllun Addysg Personol (PEP) gyda'r gofalwr maeth er mwyn sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli gyda'n gofalwyr. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gyfrifol am fonitro datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant gofalwyr maeth. Maent yn sicrhau bod pob gofalwr maeth yn cwblhau'r cyfleoedd Hyfforddi, Cymorth a Datblygu sy'n eu galluogi i ddarparu gofal o safon uchel i blant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu.



Y Strwythur Rheoli a Strwythur y Tîm Rhanbarthol

Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol hefyd yn helpu gofalwyr maeth i gwblhau'r rhaglen gynefino i ofalwyr maeth (Scif) ac i gynnal portffolio dysgu parhaus. Mae pob Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu i hwyluso cofnod hyfforddi ar gyfer pob gofalwr maeth. Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol hefyd yn cydlynu ac yn cynnal grwpiau cymorth i ofalwyr maeth ac yn darparu Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau rheng flaen i ofalwyr.

Gweithiwr Cymorth Maethu

Mae Gweithwyr Cymorth Maethu yn darparu gwasanaethau cymorth penodol i ofalwyr maeth a phlant a phobl ifanc, ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda phlant mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae'r mewnbwn yn cael ei ddarparu am gyfnod penodol ac mae'n canolbwyntio ar atebion er mwyn helpu'r rhai a gefnogir i dyfu a datblygu. Gall gwasanaethau cymorth gynnwys cludiant achlysurol, cyswllt â goruchwyliaeth a gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae gwaith uniongyrchol yn cwmpasu meysydd fel datblygu sgiliau annibynnol, cymorth addysgol a pharatoi ar gyfer cyflogaeth ac addysg bellach, hunanamddiffyn a sgiliau lleihau risg, gwella hunanhyder a hunan-barch. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae pob pecyn gwaith wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc, gan olygu ei fod yn gallu bod yn uchelgeisiol a chyflawni ei lawn botensial. Mae Gweithwyr Cymorth yn rhedeg grwpiau a gweithgareddau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu maethu hefyd sy'n rhoi cyfleoedd iddynt gymdeithasu, rhannu profiadau a chael cymorth gan eu grwpiau cyfoedion eu hunain.

Swyddog Recriwtio Gofalwyr

Mae'r Swyddog Recriwtio Gofalwyr yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth recriwtio a marchnata, trefnu gweithgareddau/digwyddiadau recriwtio a chadw gofalwyr a'r gwaith cychwynnol o sgrinio darpar ofalwyr maeth. Mae'r Swyddog Recriwtio Gofalwyr yn gweithio'n agos gyda'r tîm rheoli rhanbarthol, cydgysylltwyr atgyfeirio a gweinyddwr y panel, ac yn fwy eang ar draws y Grŵp Maethu Cenedlaethol gyda'r Pennaeth Recriwtio Gofalwyr, i sicrhau bod 'taith y gofalwr' yn bersonol, yn amserol ac yn effeithiol o ran recriwtio a chadw gofalwyr maeth.

Y Ganolfan Atgyfeirio

Mae'r Ganolfan Atgyfeirio yn rheoli'r holl atgyfeiriadau sy'n dod i mewn a'r perthnasoedd gwaith allweddol gyda thimau lleoliadau Awdurdodau Lleol er mwyn nodi lleoliadau maethu posibl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Ganolfan Atgyfeirio yn cysylltu â gofalwyr maeth ac yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr i sicrhau bod staff gwaith cymdeithasol cymwysedig yn gwneud gwaith paru da, gan gydgysylltu'r holl drefniadau hyd at y lleoliad.

Mae'r Ganolfan Atgyfeirio yn gyfrifol am gasglu data ar atgyfeiriadau a lleoliadau ac ymgymryd â dadansoddiad cychwynnol o'r data hwnnw, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Maethu i gytuno ar gontractau a threfniadau ariannol ar gyfer lleoliadau maeth.

Rheolwr Swyddfa

Mae'r Rheolwr Swyddfa yn gyfrifol am gynnal y gwiriadau perthnasol ar gyfer gofalwyr maeth, oedolion sy'n aelodau o'r cartref a'u rhwydwaith cymorth e.e. DBS, profion meddygol, profion ALI. Maent hefyd yn gyfrifol am gasglu a dosbarthu'r holl waith papur ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol a'r Panel Maethu, archebu ystafelloedd, bwyd a lluniaeth. Mae'r Rheolwr Swyddfa yn darparu cymorth gweinyddol i'r tîm, yn darparu cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ar gyfer archwilio, yn trefnu cyfarfodydd, yn anfon dolenni ac yn archebu offer.

Gwasanaethau Clinigol Maethu

Mae'r clinigwyr sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Maethu yn Seicolegwyr a Seicotherapyddion cymwys sydd â phrofiad o weithio gyda theuluoedd a phlant sydd â hanes o drawma gan gynnwys esgeulustod, trais a chamdriniaeth. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth am ddatblygiad plant, trawma a dymeg ryngpersonol o fewn teuluoedd, yn ogystal â dealltwriaeth o seicoleg unigolion. Mae llawer o waith clinigwyr yn maes maethu yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr maeth i ddefnyddio dulliau therapiwtig, gan gynnwys rheoli eu hymatebion eu hunain i sefyllfaoedd anodd y maent ynddynt; nod hyn yw helpu'r plentyn i deimlo'n ddiogel, i ddatblygu ac i ffynnu.

I gyflawni hyn, mae Clinigwyr yn cynnig ymgynghoriadau â Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol i feithrin dealltwriaeth o deuluoedd a phlant ac i ddatblygu'r camau nesaf, ac ymgynghoriadau â theuluoedd. Gallant weithio'n uniongyrchol gyda phlant hefyd yn ôl yr angen. Cynigir hyfforddiant i ofalwyr a Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol i gefnogi'r wybodaeth sydd ganddynt a'u hymarfer wrth weithio gyda theuluoedd. Cynigir grwpiau cymorth gyda gofalwyr hefyd, yn ogystal â sesiynau ymarfer myfyriol gyda Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol. Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gynnig; ar adegau eraill, efallai y bydd angen asesiad mwy helaeth ar gyfer y plentyn. Bydd yr hyn a gaiff ei ddarparu yn cael ei ysgogi drwy feithrin dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar y plentyn a'r gofalwyr, a gwneir hyn drwy gydweithio â Gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r teulu i gynnig dull amlddisgyblaethol llawn.

Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Asiantaeth

Mae **Fostering Solutions** yn gweithio'n agos gyda nifer o Awdurdodau Lleol, y rhai yng Ngogledd Cymru yn bennaf, i ddeall anghenion penodol sy'n ymwneud â lleoliadau maethu mewn ardaloedd penodol. Fel asiantaeth, rydym wedyn yn mynd ati i recriwtio teuluoedd maeth o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n gallu darparu'r cartrefi gorau posibl i blant sydd yn ofal Awdurdodau Lleol. Ymhlith y mathau o leoliadau a ddarperir mae'r canlynol:

Brys

Gall llawer o'n teuluoedd maeth ddarparu lleoliadau brys heb eu cynllunio ar gyfer plant unigol a grwpiau o frodyr/chwiorydd. Gellir gwneud atgyfeiriadau o fewn oriau'r swyddfa, a thrwy ein gwasanaeth y Tu Allan i Oriau.

Seibiant/Seibiant Byr

Mae gennym nifer o rieni maeth sy'n gallu darparu lleoliadau seibiant rheolaidd neu seibiannau gwyliau untro.

Byrdymor

Mae lleoliadau maethu byrdymor yn amrywio o ran hyd ond gallant bara am flwyddyn neu ddwy gan eu bod yn aml yn gysylltiedig ag asesiadau pellach o'r plentyn, teulu neu bersonau cysylltiedig. Yn aml, gall lleoliadau maethu byrdymor gynnwys prosesau llyso sy'n ystyried cynlluniau hirdymor ar gyfer plant sy'n cael eu maethu, a gall y rhain gymryd amser.

Pontio

Gall llawer o'n teuluoedd maeth ddarparu lleoliadau gyda rhieni maeth sydd â phrofiad o baratoi plant ar gyfer cael eu mabwysiadu, sefydlogrwydd neu annibyniaeth. Mae lleoliadau pontio yn rhan o gynllun hirdymor ar gyfer y plentyn ac maent fel arfer yn para hyd at 2 flynedd.

Hirdymor/Sefydlogrwydd

Mae llawer o'n teuluoedd maeth yn hoffi cynnig sefydlogrwydd hirdymor i blant sy'n cael eu maethu drwy gynnig gofal hirdymor neu barhaol iddynt h.y. tan eu bod yn 18 oed ac i mewn i oedolaeth.

Rhiant gyda Phlentyn

Gall rhai o'n teuluoedd maeth gynnig cymorth i blant a'u rheini am gyfnodau o amser. Fel arfer, yn y senarios hyn bydd rhieni maeth yn helpu Awdurdodau Lleol gyda'u hasesiadau hefyd drwy ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chapasiti/galluoedd rhianta.

Lleoliadau Unigol

Os bydd yr awdurdod lleoli yn chwilio am leoliad lle mai'r plentyn/person ifanc yw'r unig un sydd wedi'i leoli yno, byddai angen nodi hyn yn glir a'i drafod ar y cam atgyfeirio er mwyn sicrhau bod modd paru'r unigolyn yn briodol gyda rhieni maeth priodol sydd â lle iddo.

Lleoliadau i Frodyr/Chwiorydd

Mae gan llawer o'n rhieni maeth y sgiliau, y profiad a'r llety i ofalu am grwpiau mawr o frodyr/chwiorydd, gan sicrhau bod plant sy'n cael eu maethu yn gallu aros gyda'i gilydd. Gwneir hyn bob amser yn unol ag ystyriaethau paru a'r cynllun gofal ar gyfer y plant.

Plant a Phobl Ifanc ar eu Pennau eu Hunain

Mae llawer o'n rhieni maeth wedi datblygu'r sgiliau a'r profiad i ddarparu lleoliadau i blant sy'n cael eu maethu sydd wedi dod o dramor ar eu pennau eu hunain, gan alluogi'r plant hyn i setlo, ymgysylltu ag addysg a chael profiadau teuluol cadarnhaol.

Pan Rwy'n Barod

Mae'n cyfeirio at drefniadau lle mae pobl ifanc 18 oed a hŷn a dderbyniodd ofal yn flaenorol yn parhau i fyw gyda'u cyn-ofalwyr maeth.

Pontio i Faethu

Mae pontio i faethu yn becyn o ofal cofleidol arbenigol a mewnbwn clinigol i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n symud o leoliad preswyl i fyw gyda theulu. Mae'r becyn yn cynnwys pedwar cam a bydd y cymorth a'r lefelau o fewnbwn clinigol yn lleihau wrth i'r plentyn setlo a phan deimlir bod y lleoliad yn un sefydlog. Mae mwy o gymorth gan weithwyr cymdeithasol yn sicrhau bod gofalwyr maeth yn gallu rhannu unrhyw bryderon a datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy'r heriau sy'n gysylltiedig â helpu plant i addasu i bywyd teuluol.

Invictus

Lleoliad arbenigol sy'n darparu gwaith ac asesiad clinigol yn uniongyrchol ar gyfer y plentyn a'r gofalwr/gofalwyr maeth. Weithiau, bydd angen mwy o gymorth ar blant a phobl ifanc drwy weithio gyda chlinigydd, fel arfer atgyfeiriad at adnodd clinigol allanol fel CAMHS. Gall cael mynediad at wasanaethau o'r fath olygu y bydd gofalwyr maeth yn wynebu oedi wrth gael y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar gyfer y plentyn. Gyda phechyn hyfforddi dynamig, nod Invictus yw sicrhau bod gan ofalwyr maeth y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i adeiladu ar sgiliau presennol.

Paru

Mae paru plant sy'n cael eu maethu â'r teulu maeth gorau posibl yn broses sy'n cael ei hystyried yn ofalus. Rydym yn cydnabod bod gwneud y penderfyniad iawn yn hanfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod plant sy'n cael eu maethu yn gwneud cynnydd ac yn cael profiadau a chanlyniadau gwell, bod lleoliadau yn fwy sefydlog a bod mwy ohonynt yn para, a bod plant sy'n cael eu maethu a theuluoedd maeth yn cael canlyniadau cadarnhaol.

Yn Fostering Solutions rydym yn cydnabod bod plant sy'n cael eu maethu yn unigolion ag amrywiaeth eang o brofiadau, anghenion a thalentau, sy'n gofyn am rieni maeth sydd yr un mor unigryw â nhw. Mae gan ein rhieni maeth amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a'n tasg ni yw paru plant sy'n cael eu maethu â'r rhieni maeth hynny sydd â'r profiad, y wybodaeth, y set sgiliau a'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion unigol.

Mae tîm y Ganolfan Atgyfeirio wrth law i helpu Awdurdodau Lleol sy'n atgyfeirio i ddod o hyd i'r rhieni maeth iawn ar gyfer plant sy'n cael eu maethu. Maent yn gweithio'n agos gyda Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yr asiantaeth, rhieni maeth ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y gwaith paru gorau posibl yn digwydd.

Yn ystod y broses atgyfeirio a pharu, bydd rhieni maeth yn cael yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r asiantaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a allant ddiwallu anghenion a chynllun gofal y plentyn sy'n cael ei faethu nawr ac yn y dyfodol. Mae rhieni maeth yn chwarae rhan lawn yn y broses baru a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn y pen draw, ar y cyd â'r Rheolwr Maethu a/neu'r Rheolwr Tîm ynghylch a allant gynig lleoliad i'r plentyn sy'n cael ei faethu yn eu cartref eu hunain.



Mae Fostering Solutions hefyd yn cynnig gwasanaeth lleoliadau brys y tu allan i oriau gwaith arferol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd atgyfeiriadau yn cael eu rheoli gan un o Weithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yr asiantaeth, ar y cyd ag un o reolwyr yr asiantaeth sydd ar ddyletswydd, a fydd yn adolygu anghenion ac amgylchiadau'r plentyn sy'n cael ei faethu a atgyfeiriwyd ac unrhyw leoedd gwag gyda theuluoedd maeth yr asiantaeth ac yn paru'r rhain â gofalwyr sydd wedi'u cymeradwyo i ddarparu lleoliadau gofal maeth brys. Mae gan y Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol fynediad llawn at wybodaeth am ofalwyr y tu allan i oriau gwaith, er mwyn sicrhau bod ansawdd y gwaith paru yn cael ei gynnal yn yr un ffordd ag y mae yn ystod oriau'r swyddfa.

Addewid y Grŵp Maethu Cenedlaethol i Blant

Ein haddewid i chi. Byddwn:

Yn eich cadw'n ddiogel ac yn gofalu amdanoch yn dda

Sicrhau eich bod yn byw mewn lle diogel a chartrefol
Gwrando arnoch chi, yn enwedig pan fyddwch chi'n
codi pryderon am eich diogelwch neu ansawdd y gofal
rydych chi'n ei gael

Sicrhau bod y bobl hynny sy'n gofalu amdanoch chi
yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth i'ch cadw'n ddiogel

Sicrhau eich bod yn barod ar gyfer y cam nesaf o'ch
bywyd – gan gynnwys rheoli arian, gofalu am eich iechyd
a gofalu am lle rydych chi'n byw

Yn eich helpu i gael addysg dda (cyflawni a mwynhau)

Sicrhau bod yr addysg rydych chi'n ei chael yn
diwallu eich anghenion

Eich helpu chi i fynychu eich darpariaeth addysg a
gwneud cynnydd da

Meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran eich potensial

Dathlu eich cyflawniadau addysgol

Helpu'r rhai sy'n gofalu amdanoch chi i gael y cyngor
iawn i gefnogi eich addysg

Yn eich helpu i fod yn iach a mwynhau bywyd

Eich helpu chi i fod yn iach, yn gorfforol ac yn
emosiynol

Eich helpu chi i gymryd rhan mewn clybiau a/neu
hobiau sydd o ddiddordeb i chi

Eich helpu chi i wneud penderfyniadau bwyta iach ac i
goginio bwyd iach

Eich helpu chi i gymdeithasu gyda'ch ffrindiau (cyhyd
ag y bydd yn ddiogel i chi wneud hynny)

Eich helpu chi i gymryd rhan mewn ymarfer corff a
chael hwyl

Yn cefnogi eich dyfodol a'ch antur nesaf

Eich helpu chi i gymryd rhan mewn
gweithgareddau cadarnhaol

Eich helpu chi i ymgymryd â phrofiad gwaith

Eich helpu chi i ddod o hyd i waith, prentisiaeth neu
ymgyrdd ag astudiaethau pellach

Eich helpu chi i gymryd rhan mewn antur pan
fyddwch chi'n un ar bymtheg

Camau bach, canlyniadau mawr.

Ymgynghori a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc

Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Fel un o asiantaethau partner y Grŵp Maethu Cenedlaethol, mae Fostering Solutions yn cefnogi datganiad cenhadaeth UNICEF i eirioli o blaid diogelu hawliau plant, er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol ac ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i gyrraedd eu llawn botensial. Wrth wneud hynny, bydd yr asiantaeth, ei staff a gofalwyr maeth yn cynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Cyfranogi ac Ymgynghori

Mae Fostering Solutions yn ymrwymedig i gynnwys pob rhanddeiliad yn y broses o adolygu a datblygu ei wasanaethau. Mae barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn hanfodol wrth sicrhau bod y gwasanaethau yn diwallu eu hanghenion ac yn parhau i fod yn berthnasol mewn amgylchedd newidol. Mae'r broses ymgynghori yn digwydd mewn sawl ffordd, naill ai drwy holiaduron, arolygon ar-lein, digwyddiadau ymgynghori, gweithgareddau a ffurflenni adborth ar gyfer adolygiadau blynyddol o ofalwyr ac adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal.

Cymorth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal Gennym

Mae'r plant sy'n cael eu lleoli gyda Fostering Solutions yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd ac mae ganddynt amrywiaeth eang o brofiadau, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael y safonau gofal uchaf i'w galluogi i fod yn uchelgeisiol a chyflawni yn ein gofal. I'r perwyl hwn, mae Fostering Solutions wedi llunio llawlyfr clir o bolisiâu a gweithdrefnau ar-lein sy'n amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan bob gofalwr maeth a phob aelod o staff.

Hefyd, pan fydd yr Awdurdod Lleol a'r asiantaeth wedi cytuno bod gofalwr maeth a nodwyd yn gallu diwallu anghenion plentyn, caiff contract lleoli ei lunio sy'n nodi hyd ac amcanion y lleoliad. Lle y bo'n bosibl, gwahoddir Gweithiwr Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, y plentyn a'i rieni (os ystyriir bod hynny'n briodol) i ymweld â'r cartref maeth ar gyfer cyfarfod cyn y lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt gwrdd a llunio Cynllun Gofal/Cytundeb Lleoliad Maeth.

Disgwylir y bydd Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn dod â dogfennaeth i'r cyfarfod.

Bydd pob plentyn a pherson ifanc a gaiff ei leoli yn cael copi o'r Canllaw i Blant ar adeg y lleoliad, a bydd yn cael cymorth i ddeall y cynnwys drwy ei ofalwr maeth, neu drwy sesiwn 1:1 gydag aelod o staff o'r asiantaeth. Bydd Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol yn gweld pob plentyn a gaiff ei leoli yn rheolaidd (o leiaf bob chwarter) i ganfod ei farn ar ei lleoliad a'r gofal y mae'n ei gael. Yn ystod yr ymweliadau hyn, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn archwilio ystafell wely'r plentyn hefyd i sicrhau ei fod fel y dylai a'i bod yn briodol i ddiwallu ei anghenion.

Gall y gwasanaethau sydd ar gael i blant gynnwys:

- Cymorth i ddod o hyd i hobi, camp, rhywbeth o ddiddordeb
- Cymorth i ddatblygu sgiliau annibyniaeth
- Gwaith unigol 1:1 wedi'i deilwra i fynd i'r afael ag angen a aseswyd
- Gwaith grŵp i fynd i'r afael â materion thematig e.e. defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n maethu e.e. gweithgareddau celf a chrefft, cystadlaethau coginio, dathlu gwyliau.
- Stori bywyd neu baratoi ar gyfer sefydlogrwydd

Amgylchedd Ffisegol

Mae Fostering Solutions yn ymfalchïo yn safon ein cartrefi maeth sy'n darparu amgylcheddau diogel, ysgogol a gofalgar sy'n canolbwyntio ar iechyd, addysg, diogelwch, parhad, deiet ac ysgogiad.

Mae gan bob plentyn ei ystafell wely ei hun oni bai bod yr Awdurdod Lleoli wedi nodi y byddai'n well bod brodyr/chwirydd yn rhannu neu, yn achos llety gwyliau, rhannu ystafell gyda phlentyn arall lle mae asesiad risg llawn ar waith. Caiff plant eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd. Mae'n ofynnol bod gan bob plentyn fan tawel i astudio yn y cartref maeth, a bod ganddo fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngwrdd (lle y bo'n briodol). Caiff pob cartref maeth ei asesu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn darparu amgylchedd iach a diogel, a chaiff hyn ei fonitro'n rheolaidd drwy ymweliadau goruchwylio misol. Mae ardaloedd chwarae yn ddiogel ac yn gaeedig a chaiff yr holl offer chwarae ei wirio i sicrhau ei fod yn gweithio ac mewn cyflwr da.

Ymgynghori a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc

Gosod Ffiniau

Mae gan bob cartref maeth ei Gynllun Gofal Mwy Diogel i'r Teulu sy'n nodi ffiniau a disgwyliadau ym mhob cartref. Caiff asesiadau risg a strategaethau y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud ag amgylchiadau ac ymddygiad pob plentyn eu nodi yng Nghytundeb Lleoliad a Chynllun Gofal y plentyn, a'u hymgorffori yn ei asesiad risg, a gwblheir ar ddechrau'r lleoliad.

Mae polisïau ar reoli cosbi, atal a gweithdrefnau cwynion ar gael i blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r polisïau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ymateb i ymddygiad yn gyson ac yn deg. Ni chaniateir unrhyw fath o gosbi corfforol. Mae gofawyr maeth yn ymdrechu i gynnig amgylchedd cyson a bod yn fodolau rôl i'r plant.

Gofal Iach

Mewn partneriaeth â'r gofalwr maeth, y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Awdurdod Iechyd, sefydlu anghenion iechyd unigol pob plentyn yn ein gofal. Lle y bo'n bosibl, bydd plant sy'n cael eu maethu yn parhau i ddefnyddio eu hadnoddau iechyd eu hunain. Os na fydd hyn yn bosibl, caiff plant:

- Eu cofrestru â meddyg teulu
- Eu cofrestru â deintydd
- Eu cofrestru ag optegydd

Mae gan Fostering Solutions bolisïau ar gadw, rhoi a chofnodi meddyginiaeth a disgwylir i bob gofal maeth gadw atynt; caiff hyn ei fonitro gan Weithiwr Cymdeithasol Goruchwylol y rhiant maeth a'r Rheolwr Maethu. Mae gofawyr maeth yn annog plant i fwyta deiet amrywiol. Caiff gofynion deietegol arbennig eu nodi yng Nghynllun Lleoliad/Cynllun Gofal y plentyn. Mae gofawyr maeth yn annog plant i wneud ymarfer corff rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu iechyd corfforol, emosiynol a seicolegol da. Caiff plant eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol i'w galluogi i ehangu eu cylch cymdeithasol a datblygu unrhyw dalentau a sgiliau sydd ganddynt.

Bydd ein gofawyr maeth:

- Yn annog plant i fwyta deiet amrywiol – caiff unrhyw ofynion deietegol arbennig eu nodi yn y Cynllun Gofal/Cynllun y Plentyn
- Yn annog ac yn galluogi plant i wneud ymarfer corff rheolaidd er mwyn sicrhau lles corfforol, emosiynol a seicolegol da
- Yn sicrhau bod plant sy'n cael eu maethu yn mynd i apwyntiadau iechyd rheolaidd a gofynol, asesiadau iechyd blynyddol ac apwyntiadau gyda'r deintydd a'r optegydd
- Yn sicrhau bod plant sy'n cael eu maethu yn cael yr holl frechiadau y mae angen i blant eu cael
- Yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at gyngor a gwybodaeth am iechyd rhywiol er mwyn gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus
- Yn cymryd yr amser i wrando ar bobl ifanc, gan roi cyfle iddynt rannu eu hemosiynau, meddyliau a theimladau er mwyn hyrwyddo lles emosiynol cadarnhaol.

Gwasanaethau Cymorth Therapiwtig

Rydym yn credu bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael darpariaeth therapiwtig gan Awdurdodau Iechyd Lleol. Rydym wedi datblygu perthnasoedd gwaith da gyda chydweithwyr iechyd ym mhob ardal leol a byddwn yn defnyddio darpariaeth leol lle bynnag y bo'n bosibl. Os na all plant ddefnyddio darpariaeth leol oherwydd yr amserlen dan sylw, neu gymhlethdod y sefyllfa, gall yr asiantaeth gomisiynu gwasanaethau gweithwyr proffesiynol cymwys, profiadol ac achrededig i ymgymryd â'r gwaith e.e. therapyddion chwarae, therapyddion plant, therapyddion celf.

Addysg

Mae Fostering Solutions yn credu bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl sylfaenol i gael addysg briodol sy'n ei alluogi i gyflawni ei lawn botensial. Ein nod yw sicrhau bod gan bob plentyn a leolir Gynllun Addysg Personol (PEP) sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd gan ysgol, gweithiwr cymdeithasol a gofalwr y plentyn. Dylai rhieni maeth gael eu cynnwys yn llawn yn y broses adolygu hon. Bydd yr asiantaeth yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleoli hefyd i sicrhau bod plant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau wedi cael eu hasesu'n briodol i benderfynu a oes angen Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) arnynt.

Ymgynghori a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc

Mae nodau addysgol yn bwysig er mwyn adeiladu sylfaen gadarn o ddysgu academaidd a chymdeithasol i alluogi plant i fod yn uchelgeisiol a chyflawni eu potensial academaidd yn llawn, gan gynnwys cymwysterau ffurfiol. Lle y bo'n bosibl, caiff plant eu cofrestru mewn ysgolion lleol a chânt y cyfle i ffurfio cyfeillgarwch a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn y gymuned leol. Mae'r asiantaeth yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol ddarparu oriau addysgu/darpariaeth addysgol amgen i'r plant hynny heb leoliad ysgol neu gall gyrchu pecynnau addysgol pwrpasol am gost ychwanegol.

Cyswllt â Ffrindiau a Pherthnasau

Mae Fostering Solutions yn sicrhau bod pob plentyn yn ein gofal yn cael ei annog i gadw mewn cysylltiad â'r rhai sydd bwysicaf iddo. Gallwn drefnu bod cyfleusterau yn cael eu darparu i sicrhau bod plentyn yn gallu cwrrd â'i deulu, ffrindiau neu weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â nhw, yn breifat. Mae trefniadau cyswllt yn rhan o Gynllun Lleoliad/Cynllun Gofal cyffredinol y plentyn. Byddem yn disgwyl i Awdurdod Lleol y plentyn roi gwybod am unrhyw newidiadau. Cyfrifoldeb y rhiant maeth yw trefnu cludiant lleol i'r cyswllt ac oddi yno, ond mae angen trafod hyn i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn gallu cael eu diwallu gan y gofalwr maeth (ytn enwedig os yw plant eraill wedi'u lleoli gydag ef) a bod pob parti yn parhau'n ddiogel.

Mae rhieni maeth yn annog plant i ffurfio a chynnal cyfeillgarwch cadarnhaol a byddant yn helpu i sicrhau bod ffrindiau yn gallu galw draw am de a mynd ar wibdeithiau pan fo hynny'n briodol. Mae rhieni maeth yn cyfrannu at drefniadau cyswllt anffurfiol gyda brodyr a chwiorydd sy'n derbyn gofal gan rieni maeth eraill.

Yn unol â deddfwriaeth, safonau, rheoliadau a chanllawiau perthnasol, rydym yn annog pwysigrwydd cyfranogiad ystyrion a'r effaith y gall hyn ei chael ar fywyd y plentyn neu'r person ifanc. Mae gan aelodau o'r staff a rhieni maeth brofiad o weithio gyda theuluoedd geni mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn parchu eu cyfranogiad mewn ffordd gadarnhaol.

Absenoldeb Anawdurdodedig a Phlant sy'n mynd ar Goll

Mae gan bob gofalwr maeth fynediad at bolisi'r asiantaeth ar blant sy'n mynd ar goll. Os oes materion yn ymwneud â risg, bregusrwydd a chamfanteisio rhywiol ar blant, yna caiff y strategaeth ei thrafod a'i chytuno â'r Gweithiwr Cymdeithasol Plant, y person ifanc a'r gofalwr maeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu a goruchwyllo priodol ar waith er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r risg ymhellach a sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau. Bydd yr asiantaeth yn gofyn i'r Awdurdod Lleol gynnal Cyfweiliadau Dychwelyd Adref bob tro y bydd plentyn yn mynd ar goll. Pan na fydd hyn yn bosibl, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyllo neu'r Rheolwr yn ymweld â'r plentyn ac yn cynnal gwiriad lles.

Gweithdrefnau Diogelu

Mae gan Fostering Solutions weithdrefnau diogelu sy'n gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru i ddiogelu lles pob plentyn. Mae'n ofynnol i'r holl staff a gofalwyr maeth gadw at y gweithdrefnau hyn yn llawn. Lle y bydd angen adolygu unrhyw arferion diogelu i sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu, gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'r Gweithiwr Cymdeithasol Plant, y rhiant maeth, a'r plentyn sy'n cael ei faethu (lle y bo hynny'n bosibl).

Mae'r holl staff perthnasol yn defnyddio Ap Diogelu Cymru ar gyfer cyfeiriadau cyflym.

Ymgynghori a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc

Cymorth Canlyniadau – manylion cymorth ychwanegol a gynigir i blant, pobl ifanc a theluoedd maeth

Mae'r ystadegau sydd ar gael yn dweud wrthym fod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn llai tebygol o wneud yn dda yn eu hastudiaethau, yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl, yn fwy tebygol o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu, fel oedolyn, systemau gofal cymdeithasol eraill. Yn Fostering Solutions, rydym yn gweithio'n galed i newid y darlun llwm hwn i blant a phobl ifanc unigol yn ein gofal, ac mae gennym gymorth ymroddedig i helpu i hybu a gwella canlyniadau. Gellir cael mynediad at yr adnoddau ychwanegol unrhyw bryd, ac mae'r cymorth a gynigir yn gyson â'n haddewid i blant a phobl ifanc yn un o'n teuluoedd maeth.

Cymorth Addysg

Gall Arweinydd Addysg y Grŵp helpu gydag unrhyw ymholiad bach neu fawr sy'n ymwneud ag addysg, o ateb cwestiwn syml i gymryd rhan uniongyrchol mewn achos lle nad yw aelod o staff neu riant maeth wedi gallu cael canlyniad addysgol addas neu briodol i'w blentyn neu berson ifanc.

- Cymorth gydag Anghenion Addysgol Arbennig neu Anableddau
- Cymorth gyda Chynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal
- Cymorth gyda gwaharddiadau, Cynlluniau Addysg Personol, ysgolion newydd, pontio ac ati

Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal mewn ffordd sensitif gyda rhanddeiliaid bob amser, ac mae anghenion y plentyn a'r person ifanc ac ymdeimlad o'r hyn ddylai'r canlyniad dymunol fod wrth wraidd y cymorth a roddir.

Cyswllt: Hannah Burke – hannah.burke@nfa.co.uk

Cymorth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

